Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llywodraeth Cymru – Is-adran y Môr a Physgodfeydd

# Amodau sy'n gysylltiedig ag Awdurdodiad Is-ddeddf 12 i bysgota am Gregyn y Brenin (Pecten maximus) gan ddefnyddio llusgrwyd gymeradwy.

**Rhoddir yr Awdurdodiad o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru, at ddibenion Is-ddeddf 12 cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru (NWNWSFC).**

Mae gan Is-ddeddf 12 NWNWSFC effaith bellach fel pe bai wedi ei gwneud mewn offeryn statudol gan Weinidogion Cymru, yn rhinwedd Erthygl 13(3) o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630 (p.42), ac Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwnnw.

**MAE'R AWDURDODIAD yn rhoi'r hawl i'r Person Awdurdodedig (deiliad y drwydded):** i bysgota am Gregyn y Brenin (Pecten maximus), eu cymryd neu eu symud, gan ddefnyddio'r cwch a nodir yn y drwydded a llusgrwydi cymeradwy (a nodir yn Rhan A) o'r ardal benodedig (a ddiffinnir yn Rhan B), yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn Rhan C.

## Rhan A – Llusgrwyd Gymeradwy

Llusgrwyd gymeradwy yw unrhyw lusgrwyd cregyn bylchog sy'n cydymffurfio ag Erthygl 10 (Manyleb llusgrwydi cregyn bylchog) o Orchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010 (O.S. 2010/269 (Cy.33)) ("Gorchymyn 2010").

## Rhan B – Yr Ardal a Nodir

Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys i'r rhan o Ardal cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru (fel y'i diffinnir gan Erthygl 2 o Orchymyn Ardal Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru 1991 (O.S. 1999/1043)) sydd yng Nghymru (fel y'i diffinnir gan adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac fel y'i diffinnir ymhellach gan Erthygl 6 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672)) ac Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwnnw.

Noder y gall yr ardal gyfan a nodir neu rannau ohoni fod ar gau i weithgarwch llusgrwydo am gregyn bylchog o ganlyniad i ddeddfwriaeth arall (gan gynnwys Gorchymyn 2010).

Gwaherddir llusgrwydo am gregyn bylchog yn yr ardal a amgaeir gan y cyfesurynnau canlynol fel y dangosir yn **atodiad 1**.

Is-adran y Môr a Physgodfeydd,
Llywodraeth Cymru,
Ystafell 3, Cedar Court, Parc Busnes Haven's Head, Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 3LS
Ffôn: 03000 253500

Mae cyfyngiadau eraill yn berthnasol i bysgota oddi ar Ogledd Pen Llŷn, fel y dangosir yn **atodiad 2**.

## Rhan C – Amodau

1. Mae'r Awdurdodiad yn ddilys o'r dyddiad y rhoddir y drwydded, neu o 00:01 ar 1 Tachwedd o'r tymor presennol (p'un bynnag yw'r dyddiad hwyraf), tan 23:59 ar 30 Ebrill (diwedd y tymor).
2. Nid yw'r Awdurdodiad ond yn rhoi'r hawl i'r person awdurdodedig i bysgota am Gregyn y Brenin (*Pecten maximus*), eu cymryd neu eu symud gan ddefnyddio'r cwch a enwir ar y drwydded a llusgrwydi cymeradwy.
3. Os yw cyfanswm hyd y cwch y mae'r drwydded yn ymwneud ag ef yn fwy 12 metr ond heb fod yn fwy na 15 metr o hyd, yna dim ond yn ardal y cyn NWNWSFC i'r dwyrain o linell a dynnwyd 0000 (T) o'r Hen Oleudy, Pen y Gogarth y mae'r awdurdodiad/trwydded yn ddilys.
4. Rhaid i'r Person Awdurdodedig gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol arall (gan gynnwys Is-ddeddfau eraill y cyn NWNWSFC) a chael unrhyw ganiatadau a/neu awdurdodiadau eraill cyn ymgymryd â'r gweithgareddau a ganiateir gan yr awdurdodiad hwn.
5. Heb effeithio ar gyffredinolrwydd Amod 2, mae'n rhaid ymgymryd â'r gweithgareddau a ganiateir gan yr Awdurdodiad hwn yn unol â darpariaethau Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010 (O.S. 2010/269 (Cy.33)) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Pysgota Môr (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1332 (Cy.230)).
6. Mae'n rhaid i'r person awdurdodedig gyflwyno adroddiad llawn a gwir ("manylion dalfeydd") ar yr holl Gregyn y Brenin  (Pecten maximus) y pysgotwyd amdanynt, a gymerwyd neu a laddwyd o'r ardal benodedig (a ddiffinnir yn Rhan B) yn unol â'r awdurdodiad hwn, erbyn pumed diwrnod y mis dilynol, gan gynnwys manylion y lleoliad, y dyddiad, yr amser, maint (mewn kg) a'r offer a ddefnyddiwyd.
7. Mae'n rhaid i'r holl bersonél ar y cwch awdurdodedig gydymffurfio â'r holl ofynion a chyfarwyddiadau a gyhoeddir gan Swyddogion Gorfodi Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru ac unrhyw Swyddog Gorfodi Morol.
8. Rhaid i dystiolaeth o'r awdurdodiad fod ar gael bob amser wrth ymgymryd â gweithgareddau a ganiateir gan yr awdurdodiad.
9. **Terfynu**: Caiff Gweinidogion Cymru yn eu disgresiwn absoliwt dynnu'r awdurdodiad yn ôl ar unrhyw adeg. Lle y bo modd, rhoddir rhybudd ymlaen llaw ynghylch tynnu awdurdodiad yn ôl, ond o dan unrhyw un neu rai o'r amgylchiadau a ganlyn, caniateir tynnu'r Awdurdodiad yn ôl ar unwaith (h.y. heb roi rhybudd):
    a) mewn argyfwng;
    b) os byddwch yn torri unrhyw un o amodau'r awdurdodiad hwn; neu
    c) os byddwch yn achosi unrhyw niwed annerbyniol i'r amgylchedd a chyflwr yr ardal a ddiffinnir yn Rhan B o'r awdurdodiad hwn.
10. **Dod i ben**: Daw'r awdurdodiad hwn i ben yn awtomatig, os na chaiff ei derfynu cyn y dyddiad hwnnw.

Is-adran y Môr a Physgodfeydd,
Llywodraeth Cymru,
Ystafell 3, Cedar Court, Parc Busnes Haven's Head, Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 3LS
Ffôn: 03000 253500

## Noder:

1. Maint lleiaf Cregyn y Brenin (Pecten maximus) y gellir eu cymryd yw 110mm. Darperir ar gyfer yr isafswm maint yn Erthygl 11 o Orchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010 (O.S. 2010/269 (Cy.33)) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Pysgota Môr (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1332 (Cy.230)) ac yn Is-ddeddf 14 cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru.
2. Mae Is-ddeddfau cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru bellach yn weithredol fel pe baent wedi'u gwneud mewn offeryn statudol gan Weinidogion Cymru, yn rhinwedd Erthygl 13 ac Atodlen 3 o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbedion) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630 (c.42)).
3. Mae Is-ddeddf 20 cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru hefyd yn atal pysgota am Gregyn y Brenin (*Pecten maximus*) ym Mae Ceredigion o fewn tair milltir forol i'r gwaelodlinau rhwng ffin ddeheuol Trwyn Cemaes (lledred $52^{0}$ 07.032’N hydred $04^{0}$ 43.853’W) a llinell a dynnir i'r Gorllewin gwir o Fraich y Pwyll (lledred $52^{0}$ 47.776’N hydred $04^{0}$ 46.072'W), rhwng 1 Mehefin a 31 Rhagfyr mewn unrhyw flwyddyn.
4. Rhaid gosod **dyfais olrhain sy’n gweithio yn llawn** ar bob cwch sy’n pysgota am Gregyn y Brenin yn nyfroedd tiriogaethol Cymru. Bydd y ddyfais yn cydymffurfio â gofynion Gorchymyn Gweithrediadau Llusgrwydo Cregyn Bylchog (Dyfeisiau Olrhain) (Cymru) 2012.
5. Tynnir eich sylw at feysydd tanio'r Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru. Gellir gweld yr Is-ddeddfau sy'n rheoli maes tanio Aberporth ar wefan hon y Llywodraeth sy'n dod ag is-ddeddfau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru ynghyd.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru.

Llofnodwyd:




Dyddiad: 14/05/2024

Gareth Bevington
Dirprwy Gyfarwyddwr
Is-adran y Môr a Physgodfeydd
Llywodraeth Cymru

Is-adran y Môr a Physgodfeydd,
Llywodraeth Cymru,
Ystafell 3, Cedar Court, Parc Busnes Haven's Head, Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 3LS
Ffôn: 03000 253500

## Atodiad 1 - Is-ddeddf 12 – Ardal sydd ar gau i bysgota cregyn bylchog ym Mae Ceredigion

**Cydgysylltu**
A 52 ° 26.000'N 004 ° 15.158'W i
B 52 ° 26.000'N 004 ° 04.818'W ac oddi yno ar hyd yr arfordir yn MHWS i
C 52° 15.222'N 004 ° 13.788'W i
D 52 ° 20.690'N 004 ° 19.346'W ac oddi yno ar hyd ffin 6nm y bysgodfa i bwynt A.





Is-adran y Môr a Physgodfeydd,
Llywodraeth Cymru,
Ystafell 3, Cedar Court, Parc Busnes Haven's Head, Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 3LS
Ffôn: 03000 253500

## Atodiad 2 – Nodyn cyngor ar riffiau cregyn dilyw gwarchodedig oddi ar Ben Llŷn

### Gorchymyn Pysgod Môr (Ardaloedd Môr Penodedig) (Gwahardd Dull Pysgota) (Cymru) 2012

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n berthnasol i Gymru, yn gwahardd pysgota am bysgod môr â chychod pysgota sy'n defnyddio offer pysgota a lusgir ar waelod y môr o fewn yr ardaloedd môr a nodir, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw offer pysgota a lusgir fod ar fwrdd y cwch ac wedi storio a'i ddiogelu pan fydd unrhyw gwch pysgota o fewn yr ardaloedd môr a nodir.

Ystyr "offer pysgota a lusgir ar waelod y môr" ("Bottom Towed Fishing Gear") yw unrhyw offer neu gyfarpar pysgota a all gael eu llusgo, eu tynnu neu eu symud ar hyd gwely'r môr gan gynnwys unrhyw lusgrwyd bysgota, treillrwyd drawst neu dreillrwyd estyllod, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain.

Mae'r Ardaloedd Môr a Nodir fel a ganlyn:

Yr ardal sydd wedi ei hamgáu rhwng y morlin pan fydd cymedr penllanw gorllanw a llinell a dynnir rhwng y cyfesurynnau a ganlyn ac y mae'r morlin hwnnw a'r llinell honno yn ffin iddi:

52º 56.909'N 04º 34.055'W

52º 59.858'N 04º 38.782'W

52º 55.455'N 04º 45.891'W

52º 52.928'N 04º 41.878'W

52º 52.155'N 04º 43.359'W

52º 51.563'N 04º 42.372'W

Yr ardal sydd wedi ei hamgáu gan linell a dynnir rhwng y cyfesurynnau a ganlyn ac y mae'r llinell honno yn ffin iddi:

52° 59.942'N 04° 34.198'W

53° 00.201'N 04° 34.289'W

53° 00.456'N 04° 34.243'W

53° 01.207'N 04° 34.035'W

53° 02.002'N 04° 32.774'W

53° 02.067'N 04° 32.579'W

53° 02.213'N 04° 31.998'W

53° 02.173'N 04° 31.697'W

53° 01.777'N 04° 31.294'W

53° 01.201'N 04° 31.158'W

53° 00.108'N 04° 31.104'W

52° 59.706'N 04° 31.551'W

52° 59.521'N 04° 31.806'W


52° 59.349'N 04° 32.425'W

52° 59.343'N 04° 32.637'W

Is-adran y Môr a Physgodfeydd,
Llywodraeth Cymru,
Ystafell 3, Cedar Court, Parc Busnes Haven's Head, Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 3LS
Ffôn: 03000 253500

52° 59.831’N 04° 34.045’W

52° 59.942’N 04° 34.198’W




Is-adran y Môr a Physgodfeydd,
Llywodraeth Cymru,
Ystafell 3, Cedar Court, Parc Busnes Haven's Head, Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 3LS
Ffôn: 03000 253500